**D’UN MATIN DE PRINTEMPS GAN LILI BOULANGER**

CYNLLUN GWERSI I’R DOSBARTH CYNRADD gan Katie Teage

**GWYLIO’R FFILM | GWRANDO AR Y SAIN**

Ar gyfer:

- Cwricwlwm Cenedlaethol **LLOEGR** (CA2)
- Cwricwlwm Rhagoriaeth **YR ALBAN** (Ail Lefel)
- Cwricwlwm i **GYMRU**: Y Celfyddydau Mynegiannol (Cam Dilyniant 3)
- Cwricwlwm Cynradd **GOGLEDD IWERDDON** (CA2)

*Cefndir*

**Y cyfansoddwr:** **LILI BOULANGER**
*Ynganu:* *Bw-lo(ng)-ZHE*
*[-w fel yn dŵr, -o(ng) fel yn y Ffr. blanc, -zh fel ‘j’ feddal, -e fel yn te, a’r pwyslais, sylwer, ar y sillaf olaf]*

- Cyfansoddwraig Ffrengig oedd Boulanger, yn byw ym Mharis.
- Gwelwyd ei dawn gerddorol yn ifanc iawn (cyn iddi allu siarad!)
- Dysgodd chwarae llawer o offerynnau gan gynnwys piano, ffidil, telyn, sielo ac roedd wrth ei bodd yn canu
- Roedd ei chwaer, Nadia Boulanger, yn gyfansoddwr llwyddiannus hefyd.
- Bu farw Lili yn ifanc iawn, yn 24 oed

**Y Gerddoriaeth:** **D’UN MATIN DE PRINTEMPS**
*Ynganu:* *d’y(ng) mat-A(NG) dy pra(ng)-TO(NG)*
*[-y(ng) fel yn y Ffr. un, -a(ng) fel yn y Ffr. vin, -o(ng) fel yn y Ffr. blanc, mae’r -s olaf yn ddi-sain*

- *D’un matin de printemps* yw’r Ffrangeg am ‘Ar fore o wanwyn’.
- Mae Boulanger yn defnyddio’r gerddorfa i baentio llun cerddorol o fore o wanwyn.
- Dyma enghraifft o gerddoriaeth Argraffiadol, sy’n canolbwyntio ar y naws a’r emosiwn mewn cerddoriaeth. Mae hefyd yn arddull o baentio a wnaed yn enwog gan artistiaid fel Monet a Renoir.
- Gwrandewch am yr alaw yn y ffliwt ar y dechrau a’r modd mae’n cael ei chwarae gan wahanol offerynnau drwy’r darn.

© BBC 2024

- Mae Boulanger yn ysgrifennu llinellau cerddorol prysur i bob offeryn, gan greu gwead cerddorol diddorol.

*Canlyniadau dysgu*

*Bydd dysgwyr yn:*
- Gwrando ac yn myfyrio ar ddarn o gerddoriaeth gerddorfaol o'r 20fed Ganrif
- Ysgrifennu cerdd a'i throi'n gyfansoddiad eu hunain
- Perfformio fel ensemble (neu fel unigolion)
- Dysgu iaith gerddorol sy'n briodol i'r dasg

*Adnoddau sydd eu hangen:*
- Gofod mawr
- Deunyddiau ysgrifennu
- Mat geiriau a thaflen waith Boulanger
- Offerynnau taro traw (e.e. seiloffonau, glockenspiels, barrau clych) neu allweddellau

*Rhestr wirio'r cwricwlwm*

**Cwricwlwm Cenedlaethol LLOEGR (CA2)**
- Chwarae a pherfformio fel unawdydd ac mewn ensemble, defnyddio eu lleisiau a chwarae offerynnau cerdd gyda chywirdeb, rhuglder, rheolaeth a mynegiant cynyddol
- Defnyddio a deall hen nodiant a nodiannau cerddorol eraill.

**Cwricwlwm Rhagoriaeth YR ALBAN (Ail Lefel)**
- Adnabod amrywiaeth o arddulliau cerddoriaeth a gallu enwi rhai o'r prif offerynnau yn y genre.
- Defnyddio llais, offerynnau a thechnoleg i greu cerddoriaeth, arbrofi gyda ansawdd (*timbre*).
- Perfformio ar offerynnau, yn unigol neu fel rhan o grŵp, i gyfleu naws a chymeriad darn o gerddoriaeth.

**Cwricwlwm i GYMRU: Y Celfyddydau Mynegiannol (Cam Dilyniant 3)**
- Rwy'n gallu cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o gyd-destun, a gwneud cysylltiadau rhwng fy ngwaith creadigol fy hun a gwaith creadigol pobl eraill, ac o leoedd a chyfnodau gwahanol.
- Rwy'n gallu archwilio a disgrifio sut mae artistiaid a gwaith creadigol yn cyfleu gwahanol naws a syniadau, a'r effaith maen nhw'n ei chael ar gynulleidfa.
- Rwy'n gallu cyfuno fy ngwybodaeth, fy mhrofiad a'm dealltwriaeth i gynllunio a chyfleu fy ngwaith creadigol ar gyfer ystod o wahanol gynulleidfaoedd, dibenion a chanlyniadau.

**Cwricwlwm Cynradd GOGLEDD IWERDDON (CA2)**
- Canu a pherfformio gydag offerynnau syml o'r cof, o'r glust neu o nodiant i ddatblygu sgiliau lleisiol ac offerynnol.
- Gweithio'n greadigol gyda sain drwy greu straeon, lluniau, patrymau, sgyrsiau a chyfeiliannau cerddorol a thrwy ymchwilio i ffyrdd o gadw'r gerddoriaeth y maen nhw wedi'i chreu.

© BBC 2024

*Y gwersi yn gryno*

Mae'r cynllun gwaith hwn wedi'i drefnu dros bedair gwers. Mae croeso i chi ei addasu i weddu i'ch plant a'r amser/adnoddau sydd gennych ar gael.

Am arweiniad ar nodiant, gweler yma.

***GWERS 1:***

| | |
|---|---|
| Gweithgareddau: | Gemau medr cerddorol<br>Gweithgareddau gwrando gweithredol |
| Bwriad dysgu: | Deall y gwahaniaeth rhwng arwydd amser 3/4 a 4/4<br>Gwrando'n sylwgar a datblygu dealltwriaeth o hanes cerddoriaeth<br>Meddwl a siarad am y nodweddion o fewn darn o gerddoriaeth |

***GWERS 2:***

| | |
|---|---|
| Gweithgareddau: | Creu cerdd am un o'r tymhorau<br>Trosi'r gerdd yn alaw |
| Bwriad dysgu: | Arbrofi gyda phatrymau cerddorol gan ddefnyddio trawiau gwahanol<br>Creu alaw gan ddefnyddio'r modd Phrygiaidd<br>Cadw'r alaw maen nhw'n ei chreu |

***GWERS 3:***

| | |
|---|---|
| Gweithgareddau: | Ymarfer dealltwriaeth rhythmig<br>Ysgrifennu rhythm ar gyfer yr alaw a grëwyd yn flaenorol |
| Bwriad dysgu: | Adnabod a deall hyd crosietau, cwaferau a minimau mewn hen nodiant<br>Defnyddio llais a tharo'r corff i arbrofi gyda rhythm<br>Darllen a chwarae brawddegau rhythmig, gan ddefnyddio hen nodiant |

***GWERS 4:***

| | |
|---|---|
| Gweithgareddau: | Ysgrifennu alaw gyda rhythmau a thrawiau ar hen nodiant<br>Ymarfer a pherfformio cyfansoddiadau |
| Bwriad dysgu: | Chwarae a pherfformio alawon ar offerynnau taro traw, offerynnau melodig neu allweddellau, gan ddilyn hen nodiant a defnyddio nodau o fewn wythfed |

© BBC 2024

# GWERS 1

*Bwriad dysgu*

- Deall y gwahaniaeth rhwng arwydd amser 3/4 a 4/4
- Gwrando'n sylwgar a datblygu dealltwriaeth o hanes cerddoriaeth
- Meddwl a siarad am y nodweddion o fewn darn o gerddoriaeth

1. **GÊM I GYNHESU –** Medr Cerddorol

**Sefyllfa:** Bydd angen gwrthrych ar bob plentyn (e.e. pen/cwpan/potel ddŵr neu hyd yn oed un o'u hesgidiau!). Gofynnwch i'r plant eistedd mewn cylch ar y llawr a gosod eu gwrthrych o'u blaenau. Esboniwch y byddant yn symud eu gwrthrych o amgylch y cylch i'r DDE, gan glapio a chodi gwrthrychau ar y curiad. Eglurwch fod y curiad yn barhaus. Gall tempo (cyflymder) y curiad gyflymu neu arafu fel curiad ein calon, ond mae'n aros yn gyson.

**Y gêm:**

a. Gyda'r plant, ailadroddwch '1, 2, 3, 4' yn gyson, gan dapio'ch calonnau ar yr un pryd. Dylid pwysleisio '1' mwy na 2, 3 a 4. Pan fydd y plant yn gallu gwneud hynny heb gyflymu, symudwch ymlaen i'r cam nesaf.

b. Ar y rhif 1, maen nhw'n mynd i basio eu gwrthrych sydd o'u blaenau i'r person ar y DDE iddyn nhw. Felly rhaid iddyn nhw godi'r gwrthrych ar guriad 4 e.e.:

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| <u>1</u><br>PASIO | 2 | 3 | 4<br>CODI | <u>1</u><br>PASIO | ayyb |

Dechreuwch yn araf er mwyn i bawb allu ei feistroli. Pan fyddwch yn barod, symudwch ymlaen i'r cam nesaf. (Hwyrach yr hoffech chi rannu'r cylch yn gylchoedd llai yma fel bod y rhai sydd wedi ei feistroli yn gallu symud ymlaen tra bod y rhai sydd angen mwy o ymarfer yn gallu aros ar eu lefel.)

c. Ar rif dau a thri rŵan gallwch ychwanegu gweithred, er enghraifft, clap ar guriadau 2 a 3 e.e.:

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| <u>1</u><br>PASIO | 2<br>CLAP | 3<br>CLAP | 4<br>CODI | <u>1</u><br>PASIO | ayyb |

Os oes gennych grŵp hyderus, gallent wneud gweithred wahanol ar bob rhif.

© BBC 2024

ch. Wedi llwyddo ar hyn, gallwch leihau nifer y curiadau i 3. Bellach bydd PASIO a CODI ar guriadau 1 a 3 a dim ond un weithred rhyngddynt ar rif 2 e.e.:

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **<u>1</u>**<br>PASIO | 2<br>CLAP | 3<br>CODI | **<u>1</u>**<br>PASIO | 2<br>CLAP | ayyb |

Cofiwch gadw'r rhif 1 ychydig yn uwch neu'n gryfach fel y gall y plant deimlo ei bwysigrwydd wrth grwpio'r curiadau.



Mae'r gêm gerddorol hon yn ein helpu i ddeall a theimlo darn Lili Boulanger *D'un Matin de printemps* sydd i raddau helaeth mewn 'amser tri' neu 'dri churiad yn y bar'. Dangosir cerddoriaeth tri churiad gan arwydd amser:

Mae'r rhif uchaf yn dweud wrthym faint o guriadau i'w cyfrif, a'r rhif gwaelod yn dweud pa fath o guriadau ydyn nhw.

Os oes 4 curiad mewn bar, bydd yr arwydd amser yn edrych fel hyn:



**2. GWRANDO GWEITHREDOL**

**Chwaraewch y recordiad sain** a chyn i chi wneud, eglurwch i'r dosbarth eich bod yn mynd i wrando ar ddarn o gerddoriaeth sy'n disgrifio adeg benodol o'r flwyddyn (peidiwch â dweud y tymor eto). Dywedwch wrthyn nhw fod y darn tua 5 munud o hyd a'i fod yn disgrifio rhywbeth sy'n digwydd ym myd natur. Rydych chi'n mynd i wrando ar y darn ddwy waith. Cofiwch hefyd wrando am deimlad y 3 churiad yn y bar.

*Gwrandawiad cyntaf (neuadd neu ystafell ddosbarth)*

Os oes digon o le: rhowch ddarnau o bapur gyda geiriau sy'n disgrifio'r tymhorau o gwmpas yr ystafell (defnyddiwch y Mat Geiriau Boulanger i gael enghreifftiau o eiriau). Os nad oes llawer o le: dosbarthwch fatiau geiriau unigol. Gofynnwch i'r plant ysgrifennu neu gylchu geiriau maen nhw'n meddwl sy'n cyfateb i'r gerddoriaeth maen nhw'n gwrando arni. Ar ôl i'r gerddoriaeth orffen, gwahoddwch nhw i rannu'r geiriau roedden nhw'n teimlo oedd yn cyfateb i'r gerddoriaeth a glywsant.

*Ail wrandawiad (neuadd neu ystafell ddosbarth)*

Am yr ail wrandawiad, rhannwch bapur a phensiliau lliw. Gofynnwch i'r plant dynnu llun o'r hyn maen nhw'n meddwl sy'n digwydd neu ba stori mae'r gerddoriaeth yn ceisio ei hadrodd. Gall hyn fod yn heriol i rai plant gan ei fod yn dasg eithaf haniaethol i rai dysgwyr. Os yw'n help, gallech ddangos y llun hwn o'r tymhorau a gofyn iddyn nhw gopïo'r un maen nhw'n

© BBC 2024

credu bod y gerddoriaeth yn ei disgrifio. Gofynnwch i rai o'r plant siarad am eu lluniau. Nawr gwyliwch y fideo cyflwyno ar gyfer y darn.

3. **Cwis Dewisol**

| | |
|---|---|
| **Beth yw'r gair am gyflymder y gerddoriaeth?** | Y Tempo |
| **Beth yw curiad?** | Pwls cyson sy'n bresennol trwy ddarn o gerddoriaeth, fel curiad calon. Mae'n gallu cyflymu neu arafu. Mae 'na guriadau cryf a churiadau gwan. |
| **Beth yw bar?** | Mae curiadau wedi'u trefnu gyda'i gilydd yn fariau. Bydd curiad cryf ar ddechrau pob bar. |
| **Beth yw arwydd amser?** | Nifer y curiadau mewn bar, neu'r mydr |
| **Beth sy'n enghraifft o arwydd amser?** | 3/4, 4/4 |

© BBC 2024

# GWERS 2

*Bwriad dysgu*

- Arbrofi gyda phatrymau cerddorol gan ddefnyddio trawiau gwahanol
- Creu alaw gan ddefnyddio'r modd Phrygiaidd
- Cadw'r alaw maen nhw'n ei chreu

## 1. CREU CERDD

I'n helpu ni i ysgrifennu ein cyfansoddiadau rydyn ni'n mynd i gymryd ysbrydoliaeth o farddoniaeth, fel mae cymaint o gyfansoddwyr yn aml yn ei wneud. Rydyn ni'n mynd i ysgrifennu **cerdd pum llinell** am dymor gan ddefnyddio llawer o ailadrodd.

Wedyn fe wnawn ni gyfleu'r gerdd hon mewn cerddoriaeth. Dyma enghraifft sylfaenol o beth sydd ei eisiau. Dangoswch hyn i'r plant:

Dwi'n hoffi'r gwanwyn
dwi'n hoffi'r gwanwyn
dwi wir yn hoffi'r gwanwyn
dwi **wir** yn hoffi'r gwanwyn achos
dwi wir yn hoffi'r gwanwyn achos mae popeth yn blaguro, yn blodeuo, ac yn dod yn fyw!

Trafodwch gyda'r plant beth sy'n digwydd yn y gerdd hon (mewn gwyrdd isod) a sut y gellid cynrychioli hynny mewn cerddoriaeth:

Dwi'n hoffi'r gwanwyn
dwi'n hoffi'r gwanwyn [ailadrodd]
dwi wir yn hoffi'r gwanwyn [ychwanegu'r gair 'wir']
dwi **wir** yn hoffi'r gwanwyn achos [pwysleisio 'wir' ac ychwanegu 'achos']
dwi wir yn hoffi'r gwanwyn achos mae popeth yn blaguro, yn blodeuo, ac yn dod yn fyw!
[ailadrodd yr un cymal ac wedyn ychwanegu nifer annisgwyl o eiriau ar y diwedd]

**Blwyddyn 3/4:** y dosbarth i ysgrifennu cerdd am unrhyw dymor. Gall rhai plant ysgrifennu eu cerddi eu hunain os ydyn nhw'n gallu.
**Blwyddyn 5/6:** y plant i ysgrifennu eu cerddi eu hunain mewn grwpiau o 2 neu 3 am dymor o'u dewis.

Gellid cadw'r gerddoriaeth ymlaen yn y cefndir yn dawel wrth iddyn nhw ysgrifennu eu cerddi, os nad yw'n tarfu arnyn nhw.

© BBC 2024

*Rhestr wirio cerdd lwyddiannus:*

- 5 llinell
- Ailadroddiad
- Newidiadau bach
- Newidiadau mawr yn y diwedd

Ar ôl i'r cerddi gael eu creu, gofynnwch i'r grwpiau eu hadrodd gyda'i gilydd (neu eu hadrodd fel dosbarth os ydych wedi creu cerdd gyda'ch gilydd). Os yn bosibl, recordiwch nhw.

## 2. ADEILADU ALAW

Dywedwch wrth y plant y gallan nhw ddefnyddio'r llythrennau canlynol ar gyfer pob llinell o'u cerdd – enwau nodau cerddorol (traw) yw'r llythrennau hyn. Byddant yn cyfleu pob gair fel nodyn neu nodau. Gall y plant naill ai ddewis 1 nodyn am bob gair, neu am fwy o her, gallai rhai plant ddewis rhoi 1 nodyn am bob sillaf. Fyddwn ni ddim yn creu cân gyda'r geiriau hyn, dim ond eu defnyddio nhw i helpu ysgrifennu alaw. Does dim angen defnyddio offerynnau ar hyn o bryd - cyfansoddi ar bapur fyddan nhw am y tro.

*Dyma'r nodau sydd ar gael ar gyfer pob llinell:*

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Llinell 1:** | **E** | **F** | | | | | | |
| **Llinell 2:** | **E** | **F** | | | | | | |
| **Llinell 3:** | **E** | **F** | **G** | | | | | |
| **Llinell 4:** | **E** | **F** | **G** | **A** | | | | |
| **Llinell 5:** | **E** | **F** | **G** | **A** | **B** | **C** | **D** | **E** |

Dyma sut y gallai edrych ar ôl i'r plant arbrofi (byddant yn gwneud dewisiadau gwahanol o ran trefn gyda'r un nodau):

**E F F E E**

Dwi'n ho- -ffi'r gwan- -wyn

**E F F E F**

Dwi'n ho- -ffi'r gwan- -wyn

**E F F E F G G**

Dwi wir yn ho- -ffi'r gwan- -wyn

**E G F F F G A G A**

Dwi wir yn ho- -ffi'r gwan- -wyn ach- -os

**E G F F F G A G A A G G G G A A G A B B C D C D E**

Dwi wir yn ho- -ffi'r gwan- -wyn ach- -os mae po- -peth yn bla- -gu- -ro yn blo- -deu- -o ac yn dod yn fyw

© BBC 2024

D.S Fydd gan y plant ddim teimlad o guriad eto, dy'n ni ddim wedi creu rhythm yma. Yn gyntaf, rydyn ni'n archwilio datblygu ein halaw yn ein byd sain tebyg i'r hyn a grëwyd gan Lili Boulanger yn ei darn hi.

Rydyn ni'n archwilio synau'r **modd Phrygiaidd** (E – E ar y piano heb ddim nodau cromatig).

Gofynnwch i'r plant ysgrifennu enwau'r nodau maen nhw'n eu defnyddio uwchben eu geiriau. Casglwch y cerddi.

3. **Cwis Dewisol**

| | |
|---|---|
| **Beth yw'r gair am grŵp o nodau wedi'u trefnu fesul gris o ran traw i fyny neu i lawr?** | Graddfa |
| **Beth yw modd?** | Math o raddfa neu drefn trawiau. Mae saith prif fodd gan gynnwys yr un a drafodir yn y cynllun gwers hwn: y modd Phrygiaidd |
| **Ar ba nodyn mae'r modd Phrygiaidd yn dechrau a gorffen?** | E |
| **Beth yw'r alaw?** | Y dôn, sy'n cynnwys cymysgedd o synau traw uchel ac isel yn chwarae un ar ôl y llall |

© BBC 2024


# GWERS 3

*Bwriad dysgu*

- Adnabod a deall hyd crosietau, cwaferau a minimau mewn hen nodiant
- Defnyddio llais a tharo'r corff i arbrofi gyda rhythm
- Darllen a chwarae brawddegau rhythmig, gan ddefnyddio hen nodiant

## 1. CYFLWYNO NODIANT RHYTHM

Bydd yr ymarfer cychwynnol ar gyfer y wers hon yn helpu plant i ddarllen a deall **rhythmau** (patrymau) yn yr **arwyddion amser** y daethom yn gyfarwydd â nhw yn y gêm gerddorol yng Ngwers 1 (sef 3/4 a 4/4).




Gall defnyddio cân gyfarwydd fod yn ffordd ddefnyddiol o ddeall rhai rhythmau sylfaenol. Dangoswch y llun isod i'r plant, sef y nodiant ar gyfer *Ble mae Daniel* sydd 'mewn tri' neu sydd â thri churiad ym mhob bar. O dan y nodau mae'r geiriau i'r gân. Uwchben y nodau mae'r enwau rydyn ni'n mynd i'w defnyddio i ddisgrifio pob rhythm.

'Ta' ydi nodyn un curiad, a 'ti-ti' ydi nodau hanner curiad (sy'n gwneud dwy sain o fewn un curiad). 'Tw' ydi'r nodyn dau guriad. Efallai y bydd rhai plant yn gwybod mai crosietau, cwaferau a minimau ydi'r rhain. Efallai y bydd rhai yn eu galw yn 'walk' a 'running' neu 'te' a 'coffi'.

= Ti -Ti
CWAFERAU (½ curiad yr un)
= Ta
CROSIET (1 curiad)
= Tw
MINIM (2 guriad)


© BBC 2024





Cymerwch sbel i ymgyfarwyddo â'r tri rhythm gwahanol drwy lafarganu neu ganu rhythmau *Ble Mae Daniel* gan ddefnyddio 'ta', 'ti-ti' a 'tw'.

## 2. ATGYFNERTHU DEALLTWRIAETH RHYTHMIG


Dangoswch y lluniau hyn a chyfrifwch y plant i mewn wrth iddyn nhw lafarganu gyda'i gilydd gan ddefnyddio 'ta', 'ti-ti' a 'tw'. Bydd cyd-lefaru yn helpu'r plant i deimlo'n hyderus.







© BBC 2024




Er mwyn amrywio pethau, gallai’r dosbarth beidio â defnyddio’u lleisiau, a chlapio, stampio neu dapio’r rhythmau yn lle hynny.

= Ti -Ti
CWAFERAU (½ curiad yr un)

= Ta
CROSIET (1 curiad)

= Tw
MINIM (2 guriad)




**3. CREU RHYTHM**

Nawr bod y plant yn gyfarwydd â chrosietau, cwaferau a minimau, rydyn ni am ganolbwyntio ar greu **rhythm** ar gyfer y nodau a ddewison ni yn y wers ddiwethaf. Mae’r plant yn mynd i greu patrwm rhythmig 8 - 12 bar.

**Blwyddyn 3/4 –** Efallai y bydd angen i rai plant gopïo neu gael syniadau o’r enghreifftiau uchod.

**Blwyddyn 5/6** – Efallai y bydd angen i rai plant ddilyn esiampl blwyddyn 3/4, ond hwyrach y bydd eraill yn gallu ysgrifennu eu fersiwn nhw drwy ddewis rhythmau o’r allwedd hon:

Rhannwch gopïau o’r daflen waith a gofynnwch i’r plant ysgrifennu eu rhythmau ar linell uchaf y daflen, fel hyn:



*Rhestr wirio llwyddiant*

© BBC 2024

- Rhaid i bob bar gynnwys cyfanswm o dri churiad
- Gallant ddefnyddio crosietau (ta), cwaferau (ti-ti) a minimau (tw)
- Gallant ailadrodd bariau (mae hyn i'w annog!)
- Dylai'r bar olaf fod yn 'ta, tw' (1 curiad + 2 guriad = 3)

Gwnewch yn siŵr bod y plant yn gallu llafarganu eu rhythmau. Dylent dapio'r curiad ar eu brest wrth lafarganu. Gall hyn fod yn anodd i rai plant. Dyma amrywiadau i geisio sicrhau eu bod yn llwyddo:

- gofynnwch iddyn nhw arafu
- rhannwch y grŵp fel bod un plentyn yn clapio'r curiad tra bod y lleill yn llafarganu'r rhythm
- gofynnwch i'r dosbarth cyfan adrodd eu patrymau ar yr un pryd tra'ch bod chi'n clapio'n gyson yn y tu blaen

Casglwch daflenni rhythm y plant.

4. **Cwis Dewisol**

| | |
|---|---|
| **Beth yw rhythm?** | Patrwm o synau o wahanol hyd |
| **Allwch chi enwi rhai mathau o guriad mewn nodiant cerddorol?** | Cwaferau, crosiet, minim |

© BBC 2024

# GWERS 4

*Bwriad dysgu*

- Chwarae a pherfformio alawon ar offerynnau taro traw, offerynnau melodig neu allweddellau, gan ddilyn hen nodiant a defnyddio nodau o fewn wythfed


## 1. YSGRIFENNU ALAW AR YR ERWYDD

Rhannwch y cerddi o'r sesiwn flaenorol gyda'r dewisiadau a wnaethant o ran nodau. Dylen nhw edrych rhywbeth yn debyg i hyn:

E F F E E
Dwi'n ho- -ffi'r gwan- -wyn
E F F E F
Dwi'n ho- -ffi'r gwan- -wyn
E F F E F G G
Dwi wir yn ho- -ffi'r gwan- -wyn
E G F F F G A G A
Dwi wir yn ho- -ffi'r gwan- -wyn ach- -os
E G F F F G A G A A G G G G A A G A B B C D C D E
Dwi wir yn ho- -ffi'r gwan- -wyn ach- -os mae po- -peth yn bla- -gu- -ro yn blo- -deu- -o ac yn dod yn fyw

Rhannwch daflenni gwaith rhythm y plant o'r sesiwn ddiwethaf hefyd.

Nawr gall y plant gymhwyso eu dewis nodau i'w rhythmau a throsglwyddo'u halaw i'r erwydd. Dangoswch neu anfonwch y ddelwedd hon sy'n dangos safle'r 8 nodyn sydd ar gael iddynt ar gyfer yr alaw hon.




Dylai eu halawon ddechrau a gorffen ar E. Gallai edrych rywbeth fel hyn:




*Rhestr wirio llwyddiant*

- Bariau gyda 3 curiad ym mhob bar
- Amrywiaeth yn y rhythmau, h.y. defnyddio crosietau, cwaferau a minimau

© BBC 2024

- Wrth ddefnyddio cwaferau (ti-ti) ailadroddwch yr un nodyn gymaint â phosibl
- Os yn newid nodyn, dim ond fesul cam i fyny ac i lawr y dylid symud
- Ysgrifennwch enwau'r nodau uwchben yr erwydd os oes angen (efallai y bydd rhai plant yn gallu darllen cerddoriaeth eisoes)
- Dylid dechrau a gorffen ar y nodyn E. I ddynodi'r E uwch gallant roi collnod (') nesaf at yr E fel hyn: E'.

## 2. YMARFER A PHERFFORMIO CYFANSODDIADAU

Pan fydd y plant wedi creu eu halawon 8 -12 bar, darparwch offerynnau taro traw i ganiatáu i blant roi cynnig ar chwarae'r alawon. Gwnewch yn siŵr eu bod yn chwarae'n gyson ac yn cyfrif 3 churiad ym mhob bar.

Yn olaf, gallant ymarfer eu cyfansoddiadau, a rhannu'r perfformiadau o fewn y dosbarth neu i grwpiau eraill yn yr ysgol.

3. **Cwis Dewisol**

| | |
|---|---|
| **Beth yw wythfed?** | Cyfres o 8 nodyn graddfa gerddorol. Mae'r nodyn cyntaf a'r olaf 8 nodyn ar wahân |
| **Beth yw arwydd amser 3/4?** | Cerddoriaeth gyda 3 churiad mewn bar (cryf-gwan-gwan) |
| **Pa fath o offerynnau yw glockenspiels, seiloffonau ac allweddellau?** | Offerynnau traw sydd â gwahanol drawiau ac y gellir eu defnyddio i chwarae alaw neu dôn |
| **Allwch chi enwi rhai o elfennau hen nodiant mewn cerddoriaeth?** | Yr erwydd (5 llinell lorweddol a 4 gofod sy'n cynrychioli trawiau cerddorol gwahanol), arwyddion amser, cleffiau |

© BBC 2024

# CAMAU PELLACH

Gweithgareddau trawsgwricwlaidd

**CELF:** Ysgrifennodd Lili Boulanger y darn hwn o gerddoriaeth wrth i syniadau creadigol symud o Argraffiadaeth i Swrrealaeth. Fel dosbarth, ymchwiliwch i'r ddau arddull, gan edrych ar y gwahanol ffyrdd y bu arlunwyr yn creu yn yr arddulliau hyn a chymharu arlunwyr fel Renoir a Dalí. Wedyn, tynnwch lun o adeilad eich ysgol mewn dull Argraffiadol ac yna mewn dull Swrrealaidd i weld pa mor wahanol y gallan nhw edrych.

**GWYDDONIAETH:** Tynnwch lun â chamera allan o ffenestr eich ystafell ddosbarth bob wythnos i ddeall yn well sut mae'r tymhorau'n newid yn eich ardal chi. Argraffwch ffotograffau, arddangoswch nhw mewn llinell amser o amgylch eich ystafell ddosbarth, gan gynnwys nodiadau ar y newidiadau gwyddonol a welwch (trefniant cymylau, patrymau tywydd, gwahaniaethau golau) dros y flwyddyn ysgol.

## GEIRFA O DERMAU CERDDOROL A DDEFNYDDIR

| TERM | DIFFINIAD |
|---|---|
| Alaw | Y dôn, sy'n gyfres o seiniau traw uchel ac isel yn chwarae un ar ôl y llall (dyma'r rhan o'r gerddoriaeth y byddwch chi'n aml yn cael eich hun yn ei chanu neu'n ei chofio) |
| Arwydd amser | Nifer y curiadau mewn bar, neu'r mydr |
| Cromatig | Cyfres o 12 nodyn yw'r raddfa gromatig, pob un yn hanner-tôn, neu hanner nodyn, ar wahân. |
| Curiad | Pwls cyson sy'n bresennol trwy ddarn o gerddoriaeth, fel curiad calon. Gall gyflymu neu arafu. |
| Gwead | Y ffordd rydyn ni'n cyfuno, cymysgu a haenu synau (pa mor 'drwchus' neu 'denau' yw'r gerddoriaeth, e.e. faint o offerynnau sy'n chwarae, sut maen nhw'n cael eu chwarae ac ati.) |
| Hen nodiant | Nodiant ar erwydd, sy'n 5 llinell lorweddol a 4 gofod sy'n cynrychioli trawiau cerddorol gwahanol |
| Modd | Math o raddfa neu drefn trawiau. Mae saith prif fodd gan gynnwys yr un a drafodir yn y cynllun gwers hwn: modd Phrygiaidd |
| Offerynnau traw | Offerynnau sydd wedi'u tiwnio i wahanol drawiau ac y gellir eu defnyddio i chwarae alaw neu dôn e.e. glockenspiel |
| Rhythm | Patrwm o synau o wahanol hyd |
| Tempo | Cyflymder y gerddoriaeth |
| Wythfed | Cyfres o 8 nodyn graddfa gerddorol. Mae'r nodyn cyntaf a'r olaf 8 nodyn ar wahân. |

© BBC 2024